



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newid trefn adnabod, cofrestru a rhoi gwybod am
symudiadau da byw



Mawrth 2022

1.0 Gwybodaeth Gefndir

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ei bwriad i ehangu EIDCymru a datblygu system a gwasanaeth olrhain amlrywogaeth cyntaf Cymru. Rhoddodd y cyhoeddiad hwn gyfle i edrych ar y rheolau polisi da byw presennol a sut y gellid eu symleiddio ac, ers hynny, mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion. Daeth yr ymgynghoriad yn manylu ar y cynigion hyn i ben ar 2 Ionawr 2022, ac roedd yn gofyn i'r diwydiant ehangach am eu barn ar y newidiadau arfaethedig i'r prosesau presennol ar gyfer cofrestru a rhoi gwybod am symudiadau ar gyfer defaid, geifr, gwartheg a moch, ynghyd â'r bwriad i gyflwyno Tagiau Electronig Gwartheg (EID Gwartheg).

Bydd EID Gwartheg yn ei gwneud yn ofynnol i wartheg gael eu hadnabod yn electronig gyda thag clust sy'n cynnwys sglodyn electronig. Dyma un o'r dulliau a ganiateir o adnabod gwartheg o dan y ddeddfwriaeth ddomestig bresennol.

Mae pwerau o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (y DU) 2020 yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol penodol sy'n ymwneud â nodi a chofrestru gwartheg, ac anifeiliaid o deulu'r ddafad a geifr. Ar ôl i ddeddfwriaeth o'r fath gael ei dad-gymhwyso, bydd Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud deddfwriaeth yn ei lle.

Mae Gweinidogion ym mhob un o weinyddiaethau'r DU yn cydnabod pwysigrwydd masnach drawsffiniol ac rydym yn gweithio'n agos gyda nhw i alinio cynigion lle bo hynny'n bosibl a sicrhau bod yr holl systemau symud ym mhob gweinyddiaeth yn cydweithio.

2.0 Y broses ymgynghori

Lansiodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yr ymgynghoriad ar 30 Medi 2021 a daeth i ben ar 2 Ionawr 2022.

Datblygwyd y cynigion yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r diwydiant amaethyddol ehangach ac ar y cyd â rhanddeiliaid mewnol a chynrychiolwyr allanol y diwydiant drwy'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw (LIDAG).

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru ac anfonwyd copïau caled i bob marchnad da byw a lladd-dy, prif swyddfeydd undebau a CFFl Cymru.

3.0 Cynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad

Roedd y cynigion polisi a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad fel a ganlyn:

- Rhoi gwybod am symudiad cyfan (gorfodol) – rhaid nodi CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith wrth gofnodi symudiad pob anifail (newid ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau gwartheg)

- Cofnodi manylion taith pob symudiad ar gyfer pob rhywogaeth (gorfodol)
- Rhaid i Ganolfannau Cofnodi Canolog (CPRCs) roi gwybod am symudiadau ar yr un diwrnod
- Rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw (gwirfoddol) – gellir rhoi gwybod am symudiadau da byw cyn i anifeiliaid adael y daliad (pob rhywogaeth)
- Cofrestru a rhoi gwybod am symudiadau yn ddi-bapur o wneud cyn y symudiad (gwirfoddol).
- Defnyddio cofrestr buches/diadell/cenfaint ar-lein ar gyfer pob rhywogaeth (gwirfoddol)
- Newid y broses symud anifeiliaid i sioeau a digwyddiadau (gwirfoddol) – datblygu proses cofnodi symudiadau cylchol ar gyfer pob rhywogaeth sy'n symud i ac o faes sioe
- Casglu barn ar y weledigaeth hirdymor ar gyfer gwella'r drefn adnabod ac olrhain moch

Ni ofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar y penderfyniad i ehangu EIDCymru i fod yn wasanaeth amlrywogaeth, ac ni ofynnodd chwaith am farn ar y systemau cofrestru a symud da byw a ddefnyddir ar hyn o bryd.

4.0 Ymatebion i'r ymgynghoriad


Derbyniodd Llywodraeth Cymru 36 o ymatebion ysgrifenedig gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion, a restrir yn Atodiad A. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bu swyddogion polisi yn ymgysylltu â thrawstoriad o'r diwydiant ar amryw o ymweliadau, cyfarfodydd rhithwir a thrafodaethau a gynhaliwyd yn y Ffair Aeaf.

Gofynnodd 16 o ymatebwyr am i'w manylion personol beidio â chael eu cyhoeddi.

Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori ac roedd cyfradd ymateb o 55% i gwestiynau a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad hwn. Mae hyn oherwydd bod yr ymgynghoriad yn cwmpasu pob rhywogaeth ac ni fyddai pob cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebwyr.

Mae'r tabl a'r graff isod yn manylu ar yr ymatebion cryno.

Cynigion yr ymgynghoriad		O blaid /Oes /Byddwn	Yn erbyn /Nac oes /Na fyddwn	Wedi camddeall y cwestiwn	Dim ffafriaeth glir	Dim ymateb
Cofnodi symudiad cyfan		16	6		7	7
Gwybodaeth am y daith a'r cludiant		13	13		5	5
Cofnodi yr un diwrnod ar gyfer CPRCs		10	8	7	3	8
Cofnodi cyn symud	Angen pasbort papur	18	3	2	2	11
Cofnodi cyn symud	Angen AML1 bapur	18	1		2	15
Cofnodi cyn symud	Mwy o wasanaethau digidol	16	3		7	10
Cofnodi electronig	Cofrestr ddaliadau ar-lein	9	13		3	11
Cofnodi electronig	Cofrestru di-bapur	15	11		2	8
Cofnodi electronig	Cofrestru ar bapur	11	3		3	19
Cofnodi electronig	Cysoni cofrestru genedigaethau	15	2		3	16
Teithiau sioe cylchol		11	1		5	19
Olrhain moch	Stocrestr flynyddol a chofrestru daliadau	9	4		2	21



Tabl 1. Dadansoddiad o'r math o ymatebydd


Math o Ymatebydd	Nifer
Unigolyn	19
Sefydliad	14
Anhysbys	3
Cyfanswm	36

5.0 Ymatebion i'r ymgynghoriad

Adran 1 – Rhoi gwybod am y symudiad cyfan (gorfodol)

Mae rhoi gwybod am symudiad cyfan yn golygu bod CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith yn cael eu cofnodi ar adroddiad symud pob rhywogaeth.

Roedd 16 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 6 yn erbyn ac nid oedd gan 7 unrhyw ffafriaeth glir.



Mae rhai o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u manylu isod:

- Mae hon yn ffordd fwy effeithlon o gofnodi symudiadau gwartheg, sy'n adlewyrchu'r system adrodd electronig bresennol ar gyfer defaid, geifr a moch. Mae llawer o'r wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi hyn eisoes yn cael ei chadw ar systemau marchnadoedd da byw, felly byddai'n hawdd ei gweithredu, cyn belled â bod y CPH pen y daith a roddir gan brynwr yn gywir.
- Mae darpariaeth i'r CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith newid manylion y symudiad yn hanfodol. Dylai fod yn orfodol i bob CPH pen y daith gadarnhau a derbyn neu newid y symudiad, o fewn cyfnod amser ymarferol.
- Mynegodd ceidwaid gwartheg eu pryderon ynghylch darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer rhoi gwybod am symudiad cyfan oherwydd y baich

gweinyddol ychwanegol. Nid oedd ceidwaid sy'n cadw defaid a gwartheg yn gwrthwynebu'r awgrym y dylid rhoi gwybod am CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith wrth symud gwartheg gan eu bod yn gyfarwydd â darparu gwybodaeth o'r fath ar ffurflenni symud defaid AML1 presennol.

- Dylai bob amser fod yn ymarferol darparu CPH pen y daith; y cwestiwn yw a yw hyn yn gywir yn ddieithriad.
- Ar y cyfan, roedd yr aelodau'n ystyried hyn yn gam cadarnhaol ond nodwyd hefyd na fyddent am weld system a fyddai'n gwneud newidiadau dramatig i fformat cofnodi symudiadau gwartheg. Bydd cofnodi CPH pen y daith yn fuddiol o ran olrhain.

Er bod y mwyafrif o blaid rhoi gwybod am y symudiad cyfan, roedd ymatebwyr yn gallu rhoi rhai sefyllfaoedd a senarios i ni pan allai fod yn anodd cofnodi CPH pen y daith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Mewn argyfwng e.e. symud gwartheg i ffwrdd o lifogydd sydyn/ ac nid yw'r CPH yn hysbys.
- Wrth werthu da byw drwy ddeliwr da byw h.y. lle mae'r anifeiliaid yn cael eu symud yn uniongyrchol o ddaliad y gwerthwr i ddaliad y prynwr, ond gyda'r gwerthiant wedi'i drefnu drwy ddeliwr.
- Gwerthu i geidwaid sydd â mwy nag un rhif daliad. Mae'n hanfodol felly bod gwerthwr y da byw yn gwybod i ba ddaliad mae'r anifeiliaid yn cael eu hanfon.
- Cwestiynodd sawl ymatebydd argaeledd gwybodaeth CPH, gydag eraill yn gofyn am gyhoeddi CPHs ar gyfer ceidwaid a CPRCs neu i'r enw a'r cyfeiriad gael eu defnyddio os nad oedd y CPH yn hysbys.

Gallai pen y daith newid wrth i'r anifeiliaid gael eu cludo neu ar ôl cyrraedd, ac roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai fod yn orfodol i bob CPH pen y daith gadarnhau a derbyn neu newid y symudiadau. Dylai'r swyddogaeth hon fod mor syml â phosibl i leihau'r baich gweinyddol ac i annog ymatebion prydlon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cefnogwyd y cynnig i gasglu CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith ar gyfer pob adroddiad symud da byw gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr.

Rhaid i geidwaid defaid, geifr a moch roi gwybod am y ddau CPH wrth symud anifeiliaid yn barod, felly rydym yn cynnig y dylid cyflwyno hyn ar gyfer gwartheg hefyd.


Rydym yn gwerthfawrogi bod rhai sefyllfaoedd brys lle na fydd modd dod o hyd i'r CPH, a bydd y rhain yn cael eu hystyried ar sail unigol. Byddem yn annog pob un o'r ceidwaid ar gyfer yr amgylchiadau eraill i gysylltu â phen y daith i ofyn am y CPH cywir cyn i'r anifeiliaid symud.

Rydym yn cynnig y dylai'r gwelliant hwn gael ei gyflwyno'n raddol a'i weithredu'n wirfoddol o lansio gwartheg ar EIDCymru, cyn dod yn ofyniad gorfodol.

Adran 2 – Cofnodi manylion taith pob rhywogaeth (gorfodol)

Rhaid cofnodi manylion y daith a'r cludiant ar bob adroddiad symud ar gyfer pob rhywogaeth

Roedd 13 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 13 yn erbyn ac nid oedd gan 5 unrhyw ffafriaeth glir.



Dyma ddetholiad o'r ymatebion a gafwyd:

- Ar gyfer cludwyr masnachol, ar sail fasnachol, gydag anifeiliaid o darddiad cymysg, yna ydw, rwy'n cefnogi casglu'r manylion hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi baich gweinyddol afresymol ar y ceidwad unigol neu ffrindiau sy'n helpu, heb unrhyw fudd os yw'r holl anifeiliaid sy'n cael eu cludo yn symud i ac o'r un lleoliadau.
- Y gallu i ddarparu gwybodaeth gywir os nad ydym yn cludo'r anifeiliaid ein hunain. Dim ond os gallwn ni roi atebion gonest i'r cwestiynau y dylid gofyn i ni ddarparu manylion.
- Rydym yn cefnogi'r egwyddor hon ond rydym yn pryderu y byddai hyn yn rhoi baich ychwanegol ar ffermwyr, yn enwedig os yw'r wybodaeth sy'n ofynnol yn gymhleth. Gall cludwyr godi a gollwng anifeiliaid ar adeg pan nad yw'r ceidwad da byw yn bresennol, ac efallai na fydd ceidwaid yn gallu cofnodi gwybodaeth adeg y symud oherwydd mynediad gwael i'r rhyngrwyd neu ddiffyg amser. Byddai angen opsiwn i ddarparu copi papur neu lanlwytho'r wybodaeth yn ddiweddarach er mwyn osgoi bylchau yn y data.
- Mae gwybodaeth gan gludwyr yn ganolog i'r gallu i olrhain – gan eu bod ar y safle, mae cludwyr yn gwybod yr union fannau llwytho a gollwng. Mae'n bosibl y bydd llawer o'r wybodaeth hon eisoes wedi'i chofnodi mewn logiau cludwyr, felly efallai y bydd cyfle i uno setiau data sy'n bodoli eisoes ac osgoi dyblygu

diangen. Awgrymwyd hefyd y gallai gofyn am fanylion golchi cerbydau wella bioddiogelwch rhwng llwythi, yn enwedig os cânt eu defnyddio i gario gwahanol rywogaethau.

- Rhaid i bob prosesydd gasglu tystiolaeth o'r manylion cludo ar gyfer pob llwyth/bwystfil y mae'n ei ladd. Ni fyddai ganddynt yr adnoddau i fewnbynnu'r wybodaeth hon i EIDCymru ar gyfer pob anifail/llwyth ac ni fyddent yn fodlon derbyn atebolrwydd am unrhyw wybodaeth trydydd parti y gellir ei darparu. Hyd yma, nid yw cwblhau manylion y daith yn electronig ac ati i ddisodli'r angen am AML1 wedi'i gyflawni ar gyfer defaid.
- Bydd hyn yn creu gwaith ychwanegol i geidwaid gwartheg a CPRCs ond, ar y cyfan, teimlwyd y bydd hyn yn dod â rhywfaint o eglurder i ofynion rhoi gwybod am symudiadau ar draws pob rhywogaeth a hyd at y safonau WATO gofynnol, a byddai'n helpu mewn achosion o glefydau o ran olrhain yn llawn. Pan fydd gwartheg yn cael eu codi gan gludwr ac nad yw'r ceidwad yn bresennol o reidrwydd, efallai na fydd yn gwybod yr union amser ymadael, hyd y daith a rhif cofrestru'r cerbyd. Mewn achosion o'r fath, os caiff yr wybodaeth honno ei chofnodi gan y cludwr, dylai hyn fod yn ddigonol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig ar gyfer cofnodi gwybodaeth am deithiau ar gyfer symudiadau pob rhywogaeth, a chodwyd pryderon a materion sylweddol ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gasglu a mewnbynnu'r wybodaeth hon.


Mae'n bwysig nodi nad yw'r cynnig hwn yn newid yr wybodaeth am gludiant y mae'n ofynnol i geidwaid ei darparu o dan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) 2007.

Yng ngoleuni'r senarios a gasglwyd o'r ymgynghoriad, ni fyddwn yn gwneud hyn yn ofyniad gorfodol wrth gofnodi symudiadau. Yn hytrach, rydym yn cynnig y dylai hyn gael ei nodi ar EIDCymru yn wirfoddol gan ddechrau adeg lansio gwartheg ar EIDCymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Grŵp Cyngori ar Adnabod Da Byw (LIDAG – Grŵp cyngori rhanddeiliaid) i benderfynu ar y cynnig yn fanylach ac ystyried sut y gellid casglu'r wybodaeth hon yn electronig heb greu baich gweinyddol ychwanegol i'r partïon dan sylw.

Adran 3 – Gorfodi Canolfannau Cofnodi Canolog (CPRC) i newid eu hamserau cofnodi

Gorfodi Canolfannau Cofnodi Canolog i roi gwybod i EIDCymru am symudiadau da byw ar yr un diwrnod
(Dim newid i amserlenni cofnodi ceidwaid)

Roedd 10 ymatebydd o blaid, roedd 8 yn erbyn, roedd 7 wedi camddeall y cwestiwn a ofynnwyd ac nid oedd gan 3 unrhyw ffafriaeth glir.



Cafwyd ymatebion amrywiol i'r adran hon yn dibynnu ar sut roedd yr ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn. Roedd amryw o'r ymatebwyr wedi camddeall y cwestiwn ac yn credu mai'r cynnig oedd y dylid cyflwyno cofnodi yr un diwrnod ar gyfer pob ceidwad, yn hytrach na CPRCs yn unig.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Byddai modd cofnodi symudiadau drwy farchnadoedd da byw (CPRCs) ar yr un diwrnod, o ystyried bod y rhan fwyaf o'r symudiadau ar gyfer gwartheg, defaid a moch eisoes yn cael eu cofnodi ar ddiwedd y dydd. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y gofyniad hwn yn dibynnu ar y canlynol:
 - Bod CPRCs yn cael y wybodaeth gywir gan CPH cychwyn y daith a CPH pen y daith
 - Rhaid i'r ddarpariaeth i newid a diwygio manylion mewn amser real fod ar waith.
- Yn aml, nid yw da byw yn gadael cyn diwedd y diwrnod gwerthu ar ôl rhoi gwybod am amser y symud. Mae da byw yn aml yn gadael drwy'r nos neu yn oriau mân y bore canlynol. Mae angen eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y diffiniad o "cofnodi yr un diwrnod" o dan yr amgylchiadau hyn. Maent wedi

awgrymu y byddai cyfleuster hysbysu cyn symud sy'n caniatáu i'r farchnad da byw (CPRC) roi gwybod am y symudiad ar gyfer da byw sy'n gadael y tu allan i oriau swyddfa ar ddiwrnod trafodiad, neu ar y diwrnodau canlynol, yn lliniaru'r broblem a godwyd uchod i raddau helaeth.

- Rydym yn cytuno â hyn mewn egwyddor, ond rydym yn ansicr a fydd yn bosibl, yn enwedig lle mae marchnadoedd yn cynnal mwy nag un arwerthiant yn ystod y dydd, ac mae rhai'n gwerthu gyda'r nos. Mae angen gwneud lwfans ar gyfer colli pŵer a'r rhyngrwyd, a gellir cynnal rhai arwerthiannau i ffwrdd o'r iard arwerthu gydag ychydig neu ddim cysylltiad.
- Cefnogi rhoi gwybod ar yr un diwrnod, gan y byddai hyn yn gwella'r gallu i olrhain ac yn galluogi gweithredu cyflymach i reoli achosion o glefydau. Mae'n bwysig nodi bod rhai marchnadoedd yn gweithredu dros amser hir, a bod rhai symudiadau'n digwydd dros nos, felly byddai'r gallu i roi gwybod 24 awr y dydd yn fwy priodol.
- Dylai cofnodi yr un diwrnod o ganolfannau o'r fath wella prydlondeb olrhain clefydau os bydd achosion a/neu leihau graddfa'r cyfyngiadau symud a osodir wedi hynny.
- Byddai cofnodi 'yr un diwrnod' fel y'i nodwyd yn sefyllfa anymarferol i'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu mewn CPRCs. Awgrymwyd y byddai caniatáu i CPRCs roi gwybod am symudiadau o fewn 24 awr i gyrraedd yn ofyniad mwy cytbwys. Gallai hyn gael effaith ar farchnadoedd da byw llai o faint a fyddai'n wynebu mwy o faich gweinyddol. Gofynnir hefyd am sicrwydd na fyddai'r newidiadau hyn yn cael eu cymhwyso hefyd i ddaliadau amaethyddol gan y byddai'r gofynion hyn yn anymarferol i'r rhan fwyaf o fusnesau ffermio. Eglurhad o sut y byddai'r newidiadau hyn yn cyfateb i CPRCs trawsffiniol ac a fyddai'r terfynau amser penodedig hefyd yn berthnasol iddynt ar gyfer symudiadau sy'n tarddu o Gymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae data'r ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i'r cynnig polisi hwn, er bod amryw o'r ymatebwyr wedi dehongli bod y cynnig polisi hwn yn cynnwys yr holl adroddiadau symud da byw i CPRCs. Mae bwriad polisi'r cynnig hwn ar gyfer y gwaith cofnodi symudiadau anifeiliaid da byw a wneir gan CPRCs (marchnadoedd, lladd-dy, canolfannau casglu ac ymgynnull) yn unig. Nid ydym yn bwriadu lleihau'r amseroedd rhoi gwybod am symudiadau da byw ar gyfer ceidwaid o 3 diwrnod, waeth a ydynt yn symud i fferm arall neu i farchnad/lladd-dy.

Er y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r amserlenni nodi symudiadau yn berthnasol i farchnadoedd, lladd-dai a chanolfannau casglu ac ymgynnull yng Nghymru yn unig, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i sicrhau alinio polisiâu lle bo hynny'n bosibl.

Awgrymodd llawer o'r ymatebion a ddangosodd gefnogaeth i'r cynnig hwn y byddai rhoi gwybod am symudiadau 24 awr y dydd yn fwy ymarferol ar gyfer y nod polisi hwn. Felly, rydym yn bwriadu dod â'r cynnig hwn i rym ar gyfer CPRCs gyda therfyn


amser o 24 awr yn hytrach na'r un diwrnod. Byddwn yn gweithio gyda marchnadoedd, lladd-dai, canolfannau casglu ac ymgynnull drwy gydol y newid.

Adran 4 – Rhoi gwybod am symudiadau pob rhywogaeth ymlaen llaw (gwirfoddol)

Mae rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw yn golygu rhoi gwybod am symudiad cyn i anifail adael y daliad yn lle hyd at 3 niwrnod ar ôl y symudiad

4.1 A oes adegau pan fydd dal angen y pasbort papur presennol?

Atebodd 50% o'r ymatebwyr Oes, atebodd 8% Nac oes, rydym yn credu bod 6% wedi camddeall y cwestiwn ac nid oedd gan 6% unrhyw ffafriaeth glir. Dosbarthwyd y rhai a atebodd y cwestiwn yn seiliedig ar y rheolau presennol fel rhai a oedd wedi camddeall y cwestiwn gan ei fod yn gofyn am ofynion yn y dyfodol.



Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion yn cytuno bod sefyllfaoedd lle bydd dal angen y pasbort papur presennol, gyda'r rhesymau a roddwyd wedi'u crynhoi isod:

- I ddarparu tystiolaeth o'r symudiad os bydd yn teithio ac yn cael ei atal gan yr awdurdodau
- Mae amryw o ffermwyr heb gysylltiad â'r rhyngrwyd na chyfrifiadur.
- I gyfeirio ato'n gyflym yn y swyddfa, neu ar gyfer arolygiadau cyflym, neu i gadarnhau gwybodaeth pan na fydd pŵer, ac fel copi wrth gefn rhag ofn y bydd systemau cyfrifiadurol yn methu.
- Mae'n fuddiol i gadw cofnodion ar y fferm

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Gellir cael gwared ar basbortau gwartheg papur, a dim ond cael copi electronig

- Mae'n ymddangos bod presenoldeb yr opsiwn papur yn achosi mwy o ddryswch
- Rwy'n cefnogi'n llawn yr opsiwn i lenwi pasbortau papur. Bydd system sy'n gyfan gwbl ar-lein yn wynebu problemau megis darparu prawf o berchnogaeth wrth gludo da byw, lladrata a rhyngweithio trawsffiniol.
- Diogelwch a dibynadwyedd cynnwys yr holl wybodaeth ar-lein a mynediad at gysylltedd digidol dibynadwy ledled Cymru gyfan ar gyfer pob ceidwad da byw.
- Dylid defnyddio pasbortau papur yn ystod y cyfnod trosi nes bod EID wedi'i sefydlu'n llawn.
- Mae pasbortau presennol yn cynnwys llawer o wybodaeth ychwanegol, sy'n hanfodol i'r gadwyn gyflenwi a gwerth yr anifail, y gellir ei sganio'n awtomatig o'r cod bar. Cyn y gellir dileu pasbortau, mae'n hanfodol cael dealltwriaeth drylwyr o'r cyfraniad mae'r rhain yn ei wneud at arferion busnes presennol ar gyfer pob gweithredwr yn y gadwyn gyflenwi. I'r ffermwyr hynny nad ydynt wedi'u galluogi'n ddigidol, y pasbort yw'r unig ffordd o olrhain symudiadau anifail.
- Rwy'n awgrymu fod angen i'r gronfa ddata newydd fod ar waith ac wedi'i hymgorffori'n llawn cyn ystyried dileu'r pasbort papur presennol.
- Roedd sefyllfaoedd ar gyfer pasbortau papur gan fod cyfran fawr o gymunedau gwledig yn dal i fethu â gweithredu gyda chysylltiad rhyngrwyd dibynadwy, ac nid oes gan lawer ohonynt unrhyw ddewis ond defnyddio pasbortau papur gan nad oes ganddynt signal o gwbl. Fodd bynnag, gyda datblygiad y gallu i lenwi'r pasbortau ar-lein, bydd hyn yn rhoi'r potensial hirdymor i roi gwybod am symudiadau yn electronig. Gan fod hon yn weithdrefn sydd eisoes yn cael ei chynnal ar y pasbortau papur, ni fyddai unrhyw faich ychwanegol i lenwi'r manylion gan fod ceidwaid eisoes yn gyfarwydd â gwneud hyn ar bapur.

4.2 A oes adegau pan fydd dal angen yr AML1 bapur bresennol?

Atebodd 50% o'r ymatebwyr Oes, atebodd 3% Nac oes ac nid oedd gan 6% unrhyw ffafriaeth glir.



Dyma ddetholiad o'r ymatebion:


- Roedd sefyllfaoedd lle mae angen y ffurflen AML1 bresennol, a rhoddwyd enghreifftiau o bob marchnad, lladd-dy a chorff arolygu sy'n gofyn amdanynt er mwyn gwirio rhif y daliad ar gyfer symudiadau.
- Mae AML1 yn caniatáu i anafiadau neu afiechydon munud olaf gael eu cofnodi cyn i anifeiliaid gael eu llwytho, lle gall cysylltiad â'r rhyngwrwyd fod yn wael a lle mae amser yn brin
- Mae ceidwaid nad ydynt wedi'u galluogi'n ddigidol yn dal i ddefnyddio'r ffurflen AML1 ar gyfer symud anifeiliaid a chasglu manylion y daliad tarddu. Dywedwyd 'Mae'n cael ei defnyddio hefyd i gadarnhau bod gan ffermwyr a chludwyr yr hawl i gludo'r anifeiliaid, yn hytrach na llenwi Tystysgrif Cludo Anifeiliaid ar wahân'.
- Fel prosesydd cig oen, dim ond fel ail wiriad FCI y byddwn yn defnyddio'r AML1, i ddilysu CPH cychwyn y daith ar gyfer pob llwyth a hyd y daith. Dydyn ni ddim angen yr AML1 at unrhyw ddiben arall'.
- Hyd yn oed os byddwn yn symud i system gwbl electronig, mae manteision penodol o gael yr opsiwn o gofnod papur er hwylustod mewn marchnadoedd da byw anghysbell, er enghraifft. Awgrymwyd 'ffurflen bapur hawdd ei hargraffu os bydd y pŵer neu TG yn methu, fel arall byddai masnachu da byw yn dod i ben, a fyddai'n gwbl annerbyniol o safbwynt busnes ond hefyd o safbwynt lles anifeiliaid'.
- Mae defnyddio dogfen AML1 bapur ar gyfer symud defaid a/neu eifr yn galluogi'r rhai sy'n eu cludo i brofi bod yr anifeiliaid wedi'u symud mewn modd awdurdodedig. Gallai dileu'r ddogfen hefyd ei gwneud yn anos i awdurdodau arwain ymholiadau os bydd anifeiliaid yn cael eu symud heb awdurdod neu'n anghyfreithlon.

4.3 A fydddech chi'n croesawu mwy o wasanaethau digidol? Beth sydd ei angen arnoch ichi fedru gwneud hyn?

Atebodd 44% o'r ymatebwyr Byddwn, atebodd 8% Na fyddwn ac nid oedd gan 19% unrhyw ffafriaeth glir.



Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth dda i fwy o wasanaethau digidol ond roedd y pryderon ynghylch cysylltedd gwledig, llythrennedd cyfrifiadurol a seilwaith digidol o fewn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn cael eu rhannu gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr.




Roedd ail ran y cwestiwn ymgynghori hwn yn gofyn beth fyddai ei angen ar y diwydiant i'w alluogi i ddefnyddio mwy o wasanaethau digidol. Mae'r siart uchod yn dangos mathau o gefnogaeth a awgrymwyd gan yr ymatebwyr. Hyfforddiant, Cysylltedd a systemau a gwasanaethau cymorth 'addas i'r diben' oedd yr ymatebion mwyaf cyffredin.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Roedd rhaid i'r systemau fod yn addas i'r diben. Ar hyn o bryd, maent wedi'u dylunio'n wael ac yn amaturaid eu golwg. Yn sicr, nid ydynt yn hawdd eu defnyddio gan fod 'dull gweithredu sy'n addas i bawb' yn creu dryswch gwirioneddol ymhlith llawer o dyddynwyr
- Gellid symleiddio'r ffurflenni'n sylweddol, ynghyd â chadarnhad gwell o'r camau a gwblhawyd a mwy o hysbysiadau e-bost gan y byddai hyn yn helpu i egluro i ddefnyddwyr newydd a hen bennau eu bod wedi cwblhau'r broses yn gywir.
- Diffyg cysylltedd yw fy mhrif rwystr i wneud unrhyw beth yr un diwrnod. Rwy'n ffodus i fod yn gyfarwydd â TG yn gyffredinol, ond mae yna ffermydd o hyd rwy'n gweithio gyda nhw sydd â ffôn llinell dir yn unig - dim ffonau symudol, dim ffonau clyfar, dim cyfrifiaduron.
- Rwy'n cefnogi'r defnydd o fwy o wasanaethau digidol gan y bydd hyn yn gwella'r gallu i olrhain ac yn helpu i reoli clefydau.
- Mae'r defnydd o fwy o wasanaethau digidol a'r manteision posibl y gallant eu darparu yn cael ei groesawu, ond rhaid rhoi pwyslais ar bwysigrwydd cadw opsiynau papur ochr yn ochr â datblygu'r platfform digidol.

- Defnyddio gwasanaethau digidol pan fo hynny'n rhesymol, yn ymarferol ac yn effeithlon o ran amser. Mae cynnwys mesurau wrth gefn o fewn rheoliadau yn hanfodol o ystyried amrywioldeb mynediad digidol ledled Cymru oherwydd signal, dibynadwyedd a hygyrchedd. Gallai cyflwyno unrhyw wasanaethau digidol gorfodol arwain at straen ychwanegol i unigolion, a'r risg o allgáu'r rhai na fyddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau o'r fath. Byddai'n hanfodol cynnig hyfforddiant personol digonol wedi'i deilwra am ddim i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaethau. Roedd y rhain yn ymestyn i bryderon y gallai mynediad at y system ddibynnu ar eu gallu i fforddio a buddsoddi yn y dechnoleg sy'n ofynnol a nodwyd bod cymorth ariannol yn hanfodol er mwyn caniatáu i wasanaethau digidol gwell gael eu defnyddio.
- Bydd cysylltedd gwledig yn rhwystr i rai sydd heb wasanaeth rhyngwrdd digonol neu ddim signal o gwbl. Oedran cyfartalog ffermwr yng Nghymru yw 60 oed, felly efallai na fydd eu sgiliau TG yn ddigon da i gyflawni'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno. Byddai angen i geidwaid da byw fynychu sesiynau hyfforddi neu byddai angen i gyllid tuag at offer cyfrifiadurol fod ar gael er mwyn iddynt elwa ar hwylustod cyflwyno gwybodaeth ar-lein.

4.4. Sut ydych chi'n rhoi gwybod am symudiadau ar hyn o bryd a pham?



Roedd 25 o'r ymatebwyr yn gallu ateb y cwestiwn hwn yn seiliedig ar eu hamgylchiadau. O'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd, ar-lein oedd y dull a ffafriwyd ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau gwartheg a moch. Dangoswyd mai papur oedd y dull a ffafriwyd ar gyfer defaid.

Roedd 9 o'r ymatebion a gafwyd gan ymatebwyr sy'n rhoi gwybod am symudiadau gwartheg a defaid i CTS ac EIDCymru. Roedd 7 o'r 9 ymatebydd yn rhoi gwybod am eu symudiadau gwartheg ar-lein a'u symudiadau defaid ar bapur. Y rhesymau a roddwyd dros roi gwybod am eu symudiadau defaid ar bapur yn hytrach nag ar-lein oedd eu bod yn teimlo mai dyna'r dull hawddaf gan fod rhaid i'r ddogfen AML1 bapur deithio gyda'r anifeiliaid. Nodwyd hefyd broblemau o ran gwe-lywio'r system, a bod

mewnbynnu rhifau tagiau yn cymryd llawer mwy o amser wrth gwblhau symudiadau ar-lein.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Mae'n cyd-fynd â diwrnod gwaith y fferm heb gost ychwanegol.
- Maent yn defnyddio meddalwedd rheoli fferm ar-lein i roi gwybod am eu symudiadau.
- I rai ymatebwyr, roedd rhoi gwybod am symudiadau ar-lein yn golygu dibynnu ar aelod o'r teulu i roi gwybod am y symudiadau ar eu rhan.
- Mae'r rhan fwyaf o geidwaid gwartheg yn cwblhau eu symudiadau naill ai dros y ffôn neu ar-lein eu hunain neu drwy asiant trydydd parti megis cangen leol eu hundeb, gyda mwyafrif bach yn dweud eu bod yn rhoi gwybod am eu symudiadau gwartheg drwy'r post oherwydd diffyg cysylltedd digidol. Ar y cyfan, mae ceidwaid defaid yn rhoi gwybod am symudiadau drwy'r ffurflen AML1 bapur, ond roedd lleiafrif bach o aelodau yn croesawu'r cynnig i roi gwybod am symudiadau defaid yn electronig drwy EIDCymru gael ei gydnabod fel dull cofnodi dilys o gofio bod angen dyblygu gwaith ar hyn o bryd wrth ddefnyddio'r platfform electronig a chwblhau'r ffurflen AML1 bapur i gydymffurfio â'r rheoliadau.
- Rwy'n croesawu'r dewisiadau sydd ar gael i roi gwybod am symudiadau gan eu bod yn rhoi hyblygrwydd. Os bydd problemau TG, er enghraifft, neu ddim cysylltiad band eang, mae gwybod bod dewisiadau eraill i roi gwybod am symudiadau ar gael yn bwysig. Yr hyn sy'n bwysig yw bod pob symudiad yn cael ei gofnodi mewn modd amserol, ac mae rhoi dewis yn cynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd y bydd pob ceidwad da byw yn gallu gwneud hyn 365 diwrnod y flwyddyn.

Ymatebion Rhoi Gwybod am Symudiadau Ymlaen Llaw (Gwirfoddol)

Nid oedd unrhyw gwestiwn ymgynghori penodol yn gofyn a oedd y diwydiant o blaid neu yn erbyn rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn gallu rhoi eu barn yn adran pedwar.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Rhaid bod modd i adroddiadau cyn symud gael eu golygu'n llawn, eu canslo neu eu newid yn rhwydd hyd nes y bydd yr anifeiliaid yn cyrraedd CPH pen y daith, yn hytrach na'r pwynt pan fydd yr anifeiliaid yn gadael CPH cychwyn y daith. Gallai cofnodi symudiadau ymlaen llaw fod yn fanteisiol i farchnadoedd da byw (CPRCs), gan eu hysbysu o nifer y da byw i'w disgwyl. Dylid caniatáu cyfnod ymarferol i'r cludwr a CPH pen y daith fewnbynnu, derbyn a chadarnhau neu ddiwygio gwybodaeth am symudiad.
- Gellid cofnodi gwybodaeth am symudiadau a theithiau os caiff ei wneud ymlaen llaw ac ar-lein ond bod modd ei golygu. Mae angen cynnwys rhanddirymiad ar gyfer, er enghraifft, toriad pŵer, heb unrhyw gosbau am roi gwybod yn hwyr.

- Gallai rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw fod yn arf pwysig wrth reoli clefydau, ac mae bellach wedi hen ennill ei blwyf yn eAML2 ar gyfer moch. Dylai fod yn ddull gweithredu hollgynhwysol; fel arall y canlyniad fyddai dryswch a dyblygu os bydd y ffermwr anfon a derbyn yn creu'r un symudiad.
- Safbwyntiau cymysg iawn ar roi gwybod am symudiadau ymlaen llaw ar gyfer pob rhywogaeth yn wirfoddol. Yn amlwg, mae manteision i roi gwybod am symudiadau ymlaen llaw, yn enwedig gyda phrynu gwybodus ar symudiadau o fferm i fferm. Fodd bynnag, mae pethau'n digwydd a allai atal anifeiliaid unigol neu hyd yn oed symudiadau cyfan rhag digwydd yn ôl y bwriad, a chwestiynwyd a yw'r system yn ddigon cadarn ar hyn o bryd i wneud newidiadau i'r rhag-hysbysiad cyn i'r anifeiliaid adael y daliad. Byddai unrhyw newidiadau'n dibynnu ar adroddiad electronig, felly gyda'r ddarpariaeth band eang anghyson ac annibynadwy, a yw'n ymarferol mewn gwirionedd?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er bod rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau ymlaen llaw ar gyfer pob rhywogaeth yn wirfoddol, codwyd pryderon a materion sylweddol hefyd ynghylch gweithredu'r nod polisi hwn ochr yn ochr â dileu pasbortau gwartheg papur a ffurflenni symud defaid AML1 papur.

Rydym yn cynnig y dylid galluogi cyfleuster cofnodi cyn symud yn wirfoddol yn unig pan fo deddfwriaeth yn caniatáu a byddwn yn gweithio gyda'n Grŵp Cyngori ar Adnabod Da Byw (LIDAG – Grŵp cyngori rhanddeiliaid) i ystyried sut y gellid diwygio a datblygu'r cynnig.

Nid ydym yn bwriadu gorfodi cael gwared ar basbortau gwartheg papur na dogfennau symud defaid AML1 papur ar hyn o bryd, ond byddwn yn ailystyried y cynnig polisi hwn gyda rhanddeiliaid pan fydd y deddfwriaeth yn caniatáu hynny.

Adran 5 - Rhoi gwybod am symudiadau pob rhywogaeth yn electronig (gwirfoddol)

Mae rhoi gwybod am symudiadau yn electronig yn golygu rhoi gwybod am bob symudiad drwy ddulliau electronig (llinell ffôn, cyfathrebu ar-lein neu symudol)

5.1 A fydddech chi'n ystyried defnyddio EIDCymru fel cofrestr electronig yn lle'ch cofrestr buches/diadell bapur?

Atebodd 25% o'r ymatebwyr Byddwn, atebodd 36% Na fyddwn ac nid oedd gan 8% unrhyw ffafriaeth glir.



Mae data'r ymatebion yn dangos y byddai llai o ymatebwyr yn defnyddio cofrestr daliadau ar-lein na'r nifer a fyddai'n ei defnyddio. Fodd bynnag, wrth ystyried y rhesymau a roddwyd gan y rhai na fyddent yn defnyddio cofrestr daliadau ar-lein, dywedodd rhai ymatebwyr eu bod eisoes yn cadw cofnodion electronig ac y byddai'n well ganddynt barhau i ddefnyddio'r rhain.


Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Mae angen hyder yn y system cyn iddynt ddefnyddio'r cofrestr ar-lein.
- Mae'n well gennym ni ddefnyddio'r llyfrau buches a diadell presennol.
- Byddai aelodau'n gwneud hyn dros gyfnod o amser gyda hyfforddiant a gwasanaeth rhyngwyd dibynadwy. Mae angen bod modd gallu golygu'r gofrestr yn llawn. Gofynnwyd am gadarnhad o bwy fyddai'n cael gweld y cofnodion hyn a'i bod yn cydymffurfio â rheolau GDPR.
- Rwy'n credu'n gryf y dylai defnyddio llyfrau buches/diadell electronig neu bapur fod yn ddewisol. Mae llawer o geidwaid da byw eisoes wedi dechrau manteisio ar becynnau meddalwedd rheoli buches a diadell sy'n bodoli eisoes, felly mae'n hanfodol bod pecynnau presennol ac EIDCymru yn gallu rhyngweithio â'i gilydd.

- Mae llawer o achosion lle mae cofnodion digidol yn cael eu prosesu gan asiant neu sefydliad ar eu rhan. Byddai'n cynyddu llwythi gwaith asiantau a'u gallu i reoli llawer o ddaliadau, a gallai hefyd arwain at gostau uwch i fusnesau unigol. Dyblygu nodweddion pecynnau meddalwedd fferm presennol, felly dylai darpariaethau digonol fod ar gael i ddarparwyr meddalwedd er mwyn hwyluso cyfnewid data er mwyn osgoi dyblygu mewnbynnu data â llaw. Ni roddir unrhyw wybodaeth am sut y bydd y data ychwanegol a ddarperir ar gyfer y gofrestr diadell/buches yn cael ei ddefnyddio, ac mae pryder y byddai mewnbynnu'r wybodaeth hon hefyd yn arwain at fonitro ychwanegol ar derfynau amser rhoi gwybod am symudiadau a phryder ynghylch sut y gallai awdurdodau'r llywodraeth ddefnyddio'r data hwn hefyd yn ystod archwiliadau.

5.2 Ydych chi'n cytuno â chyflwyno adroddiadau di-bapur ar gyfer pob math o dda byw?

Roedd 15 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 11 yn erbyn ac nid oedd gan 2 unrhyw ffafriaeth glir.



Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid rhoi gwybod am symudiadau yn ddi-bapur ar gyfer pob rhywogaeth, ar yr amod ei fod yn cael ei gyflwyno'n wirfoddol. Er bod llawer o'r ymatebwyr o blaid, roedd y neges yn glir y dylai dewisiadau eraill ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau barhau i fod ar gael ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio dulliau ar-lein.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Mae cysylltedd yn y Gymru wledig yn rhwystr i roi gwybod am symudiadau yn ddi-bapur
- Mynegwyd pryderon y byddai rhoi'r gorau i roi gwybod am symudiadau ar bapur yn gwahaniaethu yn erbyn rhai ceidwaid.
- Byddai'n symleiddio'r broses o roi gwybod am symudiadau ac yn hwyluso'r broses o anfon i farchnadoedd a lladd-dai. Nodwyd defnyddio llai o bapur a

gorfod storio llai o ddogfennau symud wedi'u cwblhau fel manteision rhoi gwybod am symudiadau yn ddi-bapur.

- Dylid cyflwyno'r broses o roi gwybod am symudiadau yn electronig yn wirfoddol am gyfnod penodol o amser, gan roi digon o amser i ffermwyr addasu i system orfodol newydd yn y dyfodol. Roeddent yn mynnu y dylai dewisiadau papur barhau i fod ar waith ar gyfer unrhyw CPH cychwyn y daith heb alluoedd electronig, neu os bydd methiant electronig.
- Cefnogi cyflwyno'r gallu i gofnodi'n ddi-bapur ar gyfer pob rhywogaeth, oherwydd y manteision y gall hyn eu cynnig i iechyd a lles anifeiliaid. Mae angen darparu dewis arall i geidwaid da byw nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd.
- Mae rhoi gwybod am symudiadau yn ddi-bapur yn cynnig manteision o ran cyflymder cymhathu i gofnodion symud canolog. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen y sianel bapur o hyd yn y tymor byr i ddarparu ar gyfer y ceidwaid hynny nad ydynt wedi'u galluogi'n ddigidol. Byddai dileu'r ANGEN am ddogfennau papur i gyd-fynd â da byw yn annog mwy o ddefnydd o ddulliau electronig ac yn lleihau nifer y symudiadau a gofnodir ar bapur.
- Mae'n hanfodol bod unrhyw wasanaethau a ddatblygir at y diben hwn yn hawdd eu defnyddio ac yn gydnaws â chysylltiadau lled band isel er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio a sicrhau'r defnydd mwyaf posibl ohonynt a bod pob defnyddiwr yn cael ei gynnwys. Mae hwyluso integreiddio â meddalwedd gan wahanol ddarparwyr, ac amrywiaeth o galedwedd a ddefnyddir ar y fferm, megis darllenwyr EID gan amrywiaeth o weithgynhyrchwyr, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unrhyw wasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio ac yn syml.

5.3 A oes rhesymau pam y byddech am barhau i gofrestru genedigaethau a marwolaethau a chofnodi symudiadau ar bapur?

Atebodd 31% o'r ymatebwyr Oes, atebodd 8% Nac oes ac nid oedd gan 8% unrhyw ffafriaeth glir.




O'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cefnogi parhau i gofrestru genedigaethau a marwolaethau neu roi gwybod am symudiadau gan ddefnyddio ffurflenni papur. Roedd rhai o'r rhesymau a roddodd unigolion yn cefnogi dogfennau papur yn cynnwys mynediad gwael i'r rhynggrwyd, diffyg hyfforddiant, bod papur yn caniatáu i ddigwyddiadau heb eu cynllunio gael eu cofnodi a bod cofnodi ar bapur yn gyflymach ac yn haws.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Mae gen i gopiâu y galla i gyfeirio atynt.
- Mae'n bwysig cael opsiynau i bawb. Yn ystod cyfnodau prysur iawn ar y fferm, mae'n llawer cyflymach gafael mewn trwydded bapur a'i llenwi nag yw hi i ddisgwyl i gyfrifiadur danio, llwytho'r wefan, disgwyl i god diogelwch gael ei anfon i'ch ffôn, dod o hyd i'ch ffôn, cofnodi'r holl fanylion. Hefyd, allwch chi ddim gwneud hyn os nad oes gennych chi signal ffôn symudol ac os nad yw'ch rhynggrwyd yn ddigon cyflym ar y pryd.
- Mae'n hanfodol nad oes unrhyw geidwad da byw yn cael ei atal yn bwrpasol rhag cadw da byw neu allu cydymffurfio â rheoliadau o ganlyniad i'r newid i system electronig.
- Dim gwahaniaethu yn erbyn y ceidwaid hynny sy'n ffafrio'r dull hwn am resymau cadarn oherwydd diffyg offer TG a/neu ddiffyg cysylltiad band eang.
- Y rhan fwyaf o'r ceidwaid sy'n dal i gyflwyno eu gwybodaeth da byw drwy'r ffurflenni papur gwreiddiol yw'r rhai heb yr offer, y sgiliau na'r cysylltedd i wneud hynny.

5.4 Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gwtogi'r amser i roi gwybod am enedigaethau lloï bïff i 27 niwrnod?

Roedd 15 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 2 yn erbyn ac nid oedd gan 3 unrhyw ffafriaeth glir.



Cafwyd cefnogaeth gref o blaid y cynnig polisi hwn.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Rwy'n cefnogi'r egwyddor o symleiddio'r gofynion drwy gysoni'r amserlenni, ond gall lleihau nifer y diwrnodau gynyddu'r risg o golli'r dyddiad cau, yn enwedig gan y bydd ceidwaid da byw wedi hen arfer â'r amserlenni presennol. Byddai'n ddoeth cynyddu'r amserlen ar gyfer cofrestru genedigaethau llo i 30 diwrnod yn lle hynny.
- Ddim yn gwrthwynebu'r cynnig i gwtogi'r amser i roi gwybod am enedigaethau lloï biff o 30 diwrnod i 27 diwrnod.
- Byddai'n symlach newid hyn i 30 diwrnod, gan gynnwys y gofynion cofnodi, er mwyn osgoi torri'r gofynion hyn yn ddiangen ac yn anfwriadol a heb unrhyw gyfaddawd i ddiogelwch bwyd ac ati.
- Drwy leihau nifer y diwrnodau i 27, bydd hyn yn cyd-fynd â'r hyn a bennir yn y ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn sicrhau nad oes dryswch ac yn cynorthwyo gydag amseroedd gweinyddol pan fyddant wedi'u cofnodi ar y 27ain diwrnod neu cyn hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig ar gyfer rhoi gwybod am enedigaethau yn electronig, ar yr amod ei fod yn wirfoddol a bod llwybrau amgen ar gael ar gyfer y ceidwaid hynny nad ydynt yn gallu defnyddio dulliau ar-lein.

Bydd rhoi gwybod am enedigaethau yn electronig yn wirfoddol yn bosibl ar gyfer lansio EIDCymru, a bydd cofnodi di-bapur yn cael ei annog pan fo'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hynny. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen hyfforddiant ac arweiniad, yn ogystal â'r cymorth systemau gydol y cyfnod pontio i EIDCymru.


Mae darpariaethau ar gyfer y gofrestr daliadau ar-lein wedi'u cynnwys yn natblygiad EIDCymru. Bydd hyn yn cofnodi'n awtomatig yr holl enedigaethau, marwolaethau a symudiadau a adroddir i EIDCymru a bydd ar gael i'w defnyddio gan bob ceidwaid, yn wirfoddol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gysoni'r gofynion cofnodi â'r system a chofnodi cofrestriadau geni yn y gofrestr daliadau, er bod llawer o'r ymatebwyr yn awgrymu y dylid cynyddu'r cyfnod ar gyfer rhoi gwybod am gofrestriadau geni i 30 diwrnod yn unol â gofyniad presennol y gofrestr ddaliadau. Byddwn yn archwilio'r gofynion rheoliadol ar gyfer cofrestru genedigaethau gwartheg ac yn ystyried a ellid gweithredu'r opsiwn amgen o 30 diwrnod a awgrymwyd.

Adran 6 – Newidiadau i'r drefn symud anifeiliaid i sioeau (gwirfoddol)

Datblygu proses gylchol ar gyfer cofnodi symudiadau pob rhywogaeth i ac o faes sioe

Roedd 11 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 1 yn erbyn ac nid oedd gan 5 unrhyw ffafriaeth glir.



Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig polisi i ddatblygu proses gylchol ar gyfer cofnodi symudiadau pob rhywogaeth i ac o faes sioe.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Roedd hwn yn syniad da ac mae'n ymddangos yn synhwyrol, er eu bod yn tynnu sylw at yr angen i allu canslo neu ddiwygio'r symudiad yn ôl pe bai anifail yn cael ei werthu yn y sioe ac yn symud i ddaliad arall.
- Y peth gorau fyddai cadw pethau fel y maent.
- Os gallwn ni ddibynnu ar swyddogion sioeau i brosesu'r symudiadau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn wirfoddolwyr a byddai hyn yn rhywbeth arall y byddai'n rhaid iddynt ei wneud yn dilyn y digwyddiad. Nid oes gan bob sioe fynediad i'r rhyngwyd.
- Yn cefnogi ymdrechion i symleiddio'r broses o gofnodi symudiadau, ac annog defnyddio mwy o wasanaethau digidol ar gyfer gwella olrhain a rheoli clefydau.
- Rhannwyd aelodau gan y cynnig i ganiatáu symudiadau cylchol i sioeau a digwyddiadau. Roedd rhai yn cwestiynu'r angen i ddiwygio'r system bresennol gan fod ceidwaid a swyddogion digwyddiadau yn ei deall yn dda. Roedd eraill o'r farn, yng ngoleuni'r wybodaeth sy'n ofynnol yn Adrannau Un a Dau o'r ymgynghoriad hwn, y byddai system gylchol ar gyfer cofnodi symudiadau yn lleihau'r gwaith gweinyddol ar gyfer swyddogion digwyddiadau. Mae'n

hanfodol hefyd i dda byw allu cael eu gwerthu o ddigwyddiad neu sioe ac felly gael eu symud i drydydd CPH.

- Mae'r symleiddio hwn yn synhwyrol ac fe'i croesewir ac ni fydd yn cyfaddawdu risg clefydau. Nid yw'r rheswm dros gyfyngu hyn i 3 diwrnod yn glir ac a ellid ymestyn y cyfnod i 5 diwrnod?

Ymateb Llywodraeth Cymru


Roedd cefnogaeth gref i ddatblygu proses gylchol ar gyfer cofnodi symudiadau i sioeau a digwyddiadau ar yr amod y gellir diwygio'r adroddiadau symud os na fydd yr anifeiliaid yn dychwelyd i'r daliad gwreiddiol.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid o Gymdeithasau Sioeau Da Byw Cymru i ddatblygu proses a fydd yn gweithio i bob sioe a digwyddiad. Rydym yn cynnig y dylai proses gylchol ar gyfer cofnodi symudiadau i sioeau gael ei rhoi ar waith yn wirfoddol pan fydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu hynny.

Adran 7 - Y newidiadau a gynigir ar gyfer adnabod ac olrhain moch

7.1 Beth yw'ch barn am ein huchelgais i gofrestru daliadau bob blwyddyn a chynnal stocrestr flynyddol o'r moch, a gwneud hynny'n orfodol?

Roedd 9 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 4 yn erbyn ac nid oedd gan 2 unrhyw ffafriaeth glir.



O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif o blaid y cynnig i wneud cofrestru daliadau bob blwyddyn a chynnal stocrestr flynyddol o'r moch yn ofyniad gorfodol.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:


- Ni fyddai'n problem, ond tynnodd sylw at y ffaith bod newidiadau'n gyffredin a bod niferoedd moch yn amrywio.
- Mae'n gyraeddadwy ac yn synhwyrol ar gyfer rheoli clefydau os caiff ei gymhwyso i bob mochyn h.y. tyddynnwr, bridwyr, tyfwyr.
- Rwy'n cefnogi'r egwyddor o gofrestru moch. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddarlun clir o'r boblogaeth moch yn y DU gan nad yw moch sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes bob amser wedi'u cofrestru'n gywir. Mae angen gwell gallu i olrhain er mwyn rheoli bygythiadau clefydau yn effeithiol, megis clwy Affricanaidd y moch.
- Rwy'n cytuno â barn y Cyngor Iechyd a Lles Moch fod gwybod pob lleoliad lle cedwir moch (ac o dan reolaeth pwy y maent o ddydd i ddydd) yn hanfodol er mwyn bod yn barod ar gyfer achosion posibl o glefydau. Byddai cylch adrodd blynyddol yn helpu i chwynnu a chynnal yr wybodaeth ddiweddaraf a gedwir yn ganolog.
- Byddai cofrestru yn flynyddol yn gam cadarnhaol ymlaen ac yn cyd-fynd â gweddill Prydain Fawr ac ni fyddwn yn gwrthwynebu stocrestr flynyddol. Caiff

moch eu magu mewn batsh a gallai edrych ar un dyddiad mewn blwyddyn galendr fod yn gamarweiniol yn dibynnu ar yr hyn y defnyddir yr wybodaeth ar ei gyfer.

- Ddim yn credu y byddai cofrestru bob blwyddyn a chynnal stocrestr flynyddol o foch yn ofyniad cymesur oherwydd y cynnydd mewn gwaith papur a biwrocratiaeth y byddai'n ei roi ar geidwaid. Mae ceidwaid moch yn rheoli eu hanifeiliaid mewn batsh er budd iechyd anifeiliaid, felly gellir eu holrhain yn llawn o fewn y gadwyn gyflenwi.

7.2 Beth yw'ch barn am roi tagiau electronig ar foch pan fyddant yn gadael eu daliad geni? Oes angen ei wneud yn orfodol ar gyfer stoc fagu (hesbinnod, hychod a baeddod)?

Roedd 4 o'r ymatebwyr o blaid, roedd 6 yn erbyn ac nid oedd gan 7 unrhyw ffafriaeth glir.



Dangosodd yr ymatebion nad oedd digon o gefnogaeth i gyflwyno tagiau electronig ar gyfer moch.


Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Mae tagio pob mochyn cyn gynted â phosibl yn syniad da iawn a dylai fod yn orfodol ar gyfer unrhyw stoc fagu.
- Mae diffyg tagiau electronig yn golygu y gallai rhywun gamfanteisio ar y system.
- O ystyried y defnydd llai cyffredin o dagiau clust, a oes problem / risg lles gyda'r math hwn o ddull adnabod?
- Os oes angen tagiau electronig a rhoi gwybod am symudiadau unigol ar gyfer pob mochyn, bydd hyn yn arwain at gost ac ymdrech gofnodi sylweddol i ffermwyr moch. Rwy'n credu y dylai EID fod yn ofynnol ond efallai na ddylid cofnodi pob symudiad unigol. Dylid ystyried symudiad batsh/tag lladd, fel gyda defaid, ar gyfer moch o dan flwydd oed.

- Mae moch â chlustiau hir yn cael problemau gyda thagiau'n mynd yn sownd mewn pethau ac yn rhwygo'r glust, sy'n broblem lles ac wrth eu harddangos, mae tatws yn gweithio'n well. Nid oes gen i broblem gyda thagiau lladd ond, yn aml, nid yw'r pen yn mynd gyda'r carcass. Mae'n well gan brynwyr stoc ifanc roi eu tagiau lladd eu hunain ar y moch, heb ddryswch ynglŷn â'r daliad y maent wedi dod ohono.
- Mae EID ar gyfer stoc fagu ar lefel tyddyn yn gwneud synnwyr (h.y. lle mae anifeiliaid yn cael eu symud rhwng ffermydd ac yn ôl ar gyfer bridio yn unig). Lle mae hychod yn treulio eu hoes ar y fferm, nid oes angen EID, gan fod gan anifeiliaid magu unigol dag rhif adnabod. Dim ond os yw'r seilwaith cyfatebol ar waith y bydd EID ar gyfer tyfu moch yn gweithio. Mae defnyddio tagiau clust yn anffurfiad, ac mae cwsmeriaid yn dechrau bod eisiau symud oddi wrth hynny. Gall hefyd effeithio ar werth y 5ed chwarter ar y farchnad; felly efallai na fydd symud i system sydd wedi'i seilio'n llawn ar dagiau clust yn opsiwn hirdymor, ac ni fydd yn darparu cyswllt cadarn â'r carcass wrth brosesu.
- Mae stoc fagu yn cael ei hadnabod yn unigryw ac mewn ffyrdd cadarn nad ydynt yn amharu ar brosesu carcassau yn nes ymlaen. Dim ond nifer fach o ladd-dai sy'n trin stoc fagu wedi'i difa, felly mae cael dull o olrhain yr anifeiliaid hyn sydd wedi'u difa drwy farchnadoedd a mannau casglu yn bwysig er mwyn nodi'r daliad tarddu. Mae'n debygol y bydd problem o ran cadw tagiau clust ar foch, gan eu bod yn debygol o'u cnoi a'u dinistrio. Gall tagio hefyd arwain at risgiau lles ychwanegol gyda rhwygo clustiau a phresenoldeb gwaed yn cynyddu'r risg y bydd moch yn cnoi ei gilydd. Os mai tagiau clust yw'r unig ddull adnabod a ddefnyddir, unwaith y bydd mwy nag un mochyn wedi colli ei dag, bydd yn anodd adnabod anifeiliaid unigol, gan arwain at ganlyniadau lles anfwriadol posibl pellach. At hynny, mae marchnad ar gyfer clustiau moch, a gallai tyllau tagiau yn y clustiau effeithio ar y farchnad honno. Efallai y bydd adnabod yn electronig yn bosibl ar gyfer unedau bridio, ond efallai na fydd ei angen yn y rhan fwyaf o ddaliadau (bach). Efallai na fydd angen i'r broses o adnabod anifeiliaid sy'n cael eu pesgi sy'n cael eu symud mewn batsh yn uniongyrchol i ladd-dai fod yn electronig.

7.3 Beth yw manteision neu rwystrau posibl rhoi marciau adnabod ar foch, gan gynnwys marc y genfaint a'r rhif adnabod unigryw?

Roedd 3 ymatebydd o'r farn bod y manteision yn fwy na'r rwystrau, roedd 6 o'r farn bod y rwystrau'n fwy na'r manteision ac nid oedd gan 5 unrhyw ffafriaeth glir.



O'r ymatebion a gafwyd, prin oedd y gefnogaeth i gynnwys marc y genfaint a'r rhif adnabod unigryw ar gyfer adnabod moch.

Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Byddai dynodwr cenfaint geni a hanes symud ar gyfer moch unigol o fudd i'r gallu i olrhain os bydd achos o glefyd ac ar gyfer archwiliad o'r gadwynn fwyd. Dim ond gyda thagiau clust y gellir ei ddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r moch sy'n symud i ladd-dy yn defnyddio slapfarc ar bob ysgwydd; mae hyn yn cynnwys rhif y genfaint yn unig. Ni fyddai marc slap yn gweithio pe bai'n rhaid iddo gynnwys rhif unigol hefyd. Gallai symud i dagio yn lle slapfarc ysgwydd achosi problemau olrhain ar ôl lladd ar gyfer proseswyr cig. Mae llawer o foch yng Nghymru yn rhai pedigri ac mae ganddynt ddull adnabod pedigri unigol. Bydd eich cynnig ar gyfer tagio moch yn electronig yn golygu bod gan foch pedigri ddau rif adnabod unigryw. Mae rhai bridiau pedigri yn defnyddio tatws clust a rhai eraill yn defnyddio system nodi clust.
- Bydd rhif adnabod unigryw yn helpu i wella'r gallu i olrhain, iechyd anifeiliaid a safonau iechyd pobl. Mae'n debygol y bydd problem o ran cadw tagiau clust ar foch, gan eu bod yn debygol o gnoi a dinistrio'r rhain, a gallai gwneud tyllau effeithio ar y broses o werthu clustiau moch i farchnadoedd presennol.
- Y rhwystrau ymarferol i'r prif ddulliau (tatws a slapfarciau) yw'r gallu i gael rhif hir ar yr anifail a sicrhau mai dim ond unwaith y defnyddir y rhif hwnnw. Gellid disgwyl i broblemau sy'n ymwneud â pha mor glir yw'r rhif hwnnw yn yr hirdymor, gan y bydd mwy o ddigidau i'w darllen. Efallai y bydd mwy o wrthwynebiadau hefyd ar sail lles i'r dulliau adnabod corfforol hyn. Bydd unrhyw ddefnydd gorfodol o farc adnabod unigol yn arwain at drosiant uchel o ran rhifau swyddogol sydd ar gael i'w defnyddio, o ystyried maint torllwythi a'r cyfnod byr rhwng cenedlaethau moch.
- Mae'r risg gynyddol i weithwyr fferm a fyddai'n gorfod ymgymryd â'r dasg hon yn anghymesur â manteision adnabod. Nodwyd bod moch yn cael eu rheoli mewn grwpiau er budd iechyd a lles anifeiliaid, felly gallai gweithdrefn ychwanegol a fyddai'n cynyddu straen i'r anifail arwain at effeithiau niweidiol.

Darperir triniaethau hefyd ar sail grŵp lle bo angen, felly byddai marc adnabod unigol yn anghymesur.

- Byddai'n cael ei ystyried yn fuddiol ar gyfer cofnodion perfformiad cywir. At hynny, mae'r gallu i olrhain gydol oes yn gwella uniondeb cynnyrch a mynediad i'r farchnad, ynghyd â helpu i reoli clefydau a materion gweddillion cemegol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er bod ymatebwyr yn cefnogi nodau polisi'r cynnig i gofrestru daliadau moch bob blwyddyn a stocrestr flynyddol ar gyfer moch, amlygodd yr ymatebion yr angen i ddatblygu ein syniadau ymhellach yn y maes hwn. Er mwyn ein galluogi i gyflawni'r uchelgais polisi o wella'r gallu i olrhain moch yng Nghymru, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn niwydiant moch Cymru i archwilio dulliau amgen o gofnodi niferoedd moch yn flynyddol. Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ar ei ffurf bresennol ond byddwn yn ymchwilio i ddewisiadau cofnodi i wella'r drefn olrhain wrth i ni ddatblygu EIDCymru ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau moch.

Nid yw'r ymatebion cyffredinol yn dangos bod angen cyflwyno tagiau electronig ar gyfer moch ar hyn o bryd. Fel cam nesaf, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru a rhanddeiliaid ehangach y diwydiant moch i bennu manylion y cynigion yn fanylach ac ystyried sut y gellid eu datblygu yn y dyfodol.

Ni chafwyd digon o gefnogaeth i symud ymlaen gyda'r cynnig i gynnwys marc y genfaint a'r rhif adnabod unigryw ar gyfer adnabod moch.

Mae angen gwneud gwaith ymchwil a datblygu pellach ar bob un o'r tri chynnig yn yr ymgynghoriad ar y gallu i olrhain moch ochr yn ochr ag ystyried dulliau amgen i sicrhau y byddant yn gweithio'n effeithiol ac yn cyflawni'r nod polisi. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ehangach y diwydiant moch i fireinio'r cynigion fel rhan o'n rhaglen bontio tymor hwy i EIDCymru a diwygio'r polisi adnabod a symud moch.

8.0 Canlyniadau'r ymgynghoriad a'r camau nesaf

Cynhaliwyd dadansoddiad llawn a chynhwysfawr o'r holl ymatebion a gafwyd. Bydd y cynigion a gafodd gefnogaeth yn cael eu datblygu mewn diwygiadau deddfwriaethol sydd ar y gweill ac yn cael eu galluogi drwy'r newid i EIDCymru ar gyfer gwartheg a moch.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y caiff y cynigion hyn eu datblygu drwy eu galluogi'n wirfoddol gan ddechrau pan fydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu hynny. Bydd gan rai cynigion ddarpariaeth orfodol sy'n dechrau o ddyddiad diweddarach. Byddwn yn rhannu'r amserlenni gyda rhanddeiliaid pan fydd yr amserlenni deddfwriaethol wedi eu cytuno:

Cynigion yr Ymgynghoriad		Gwirfoddol	Gorfodol (maes o law)
Cofnodi symudiadau cyfan			
Gwybodaeth am y daith a'r cludiant			
Cofnodi 24 awr ar gyfer Marchnadoedd, Lladd-dai, Canolfannau Ymgynnull a Chasglu			
Cofnodi cyn symud			
Cofnodi electronig	Cofrestr Ddaliadau Ar-lein		
Cofnodi electronig	Dileu Cofrestru Papur a Chofnodi Symudiadau Gwartheg ar Bapur (PPAFs a CPP13)		
Cofnodi electronig	Cysoni Cofrestru Genedigaethau		
Symudiadau cylchol i sioeau			

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Heddlu Gogledd Cymru
Tîm Troseddau Cefn Gwlad Gogledd Cymru
J Turrell
A Hughes
H Jones
Cymdeithas Arwerthwyr Da By Cymru
Karro Food Group
A Charmley
G W Jones
K Stebbings
NFU Cymru
J Yeomans
Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
B Barney
I Davies
NSA Cymru
Cymdeithas Filfeddygol Prydain
Undeb Amaethwyr Cymru
Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
Kepak

Hefyd, cafwyd 16 o ymatebwyr a oedd yn dymuno aros yn ddienw.